

2022 Rhif (Cy. )

2022 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Cyffordd 35 (Dobshill) i Gyffordd  
36 (The Warren), Sir y Fflint)  
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau  
Traffig Dros Dro) 2022

The A55 Trunk Road (Junction 35  
(Dobshill) to Junction 36 (The  
Warren), Flintshire) (Temporary  
Traffic Prohibitions and  
Restrictions) Order 2022

*Gwnaed* 18 Chwefror 2022  
*Yn dod i rym* 28 Chwefror 2022

*Made* 18 February 2022  
*Coming into force* 28 February 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi a chychwyn**

**Title and commencement**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35 (Dobshill) i Gyffordd 36 (The Warren), Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2022.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 35 (Dobshill) to Junction 36 (The Warren), Flintshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2022 and this Order comes into force on 28 February 2022.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984<sup>(1)</sup> neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 28 Chwefror 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw

### Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984<sup>(1)</sup> or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 28 February 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### **Atal Dros Dro**

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6, 7 ac 8 yn weithredol.

### **Cymhwys**

10.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Chwefror 2022

*Nicci Hunter*  
Arweinydd Tim Busnes  
Llywodraeth Cymru

## **ATODLEN 1**

### **Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro**

1. Y darn o gerbyffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 (Dobshill) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

### **Suspension**

9. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in articles 6, 7 and 8 are in operation.

### **Application**

10.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7 and 8 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### **Duration of this Order**

11. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 28 February 2022

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

## **SCHEDULE 1**

### **Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians**

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 35 (Dobshill) to the nosing of the eastbound entry slip road of Junction 36 (Warren Interchange).

2. The entire lengths of the eastbound entry slip road at Junction 35 (Dobshill) and the eastbound exit slip road at Junction 36 (The Warren).

2. Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 (Dobshill) a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (The Warren).

3. Y darn o gerbyffordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 35 (Dobshill).

4. Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 (The Warren) a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 (Dobshill).

### **ATODLEN 2**

#### **Terfynau Cyflymder 50 mya, 40 mya neu 30 mya Dros Dro**

1. Y darn o gerbyffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Pont Wood Lane, i'r gorllewin o Gyffordd 35 (Dobshill) hyd at ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 36A (Brychdyn).

2. Y darn o gerbyffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 36A (Brychdyn) hyd at ganolbwynt Pont Wood Lane, i'r gorllewin o Gyffordd 35 (Dobshill).

3. The length of the A55 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road of Junction 36 (Warren Interchange) to the nosing of the westbound entry slip road of Junction 35 (Dobshill).

4. The entire lengths of the westbound entry slip road at Junction 36 (The Warren) and the westbound exit slip road at Junction 35 (Dobshill).

### **SCHEDULE 2**

#### **Temporary 50 mph, 40 mph or 30 mph Speed Limits**

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Wood Lane Bridge, west of Junction 35 (Dobshill) to the centre-point of the overbridge at Junction 36A (Broughton).

2. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of the overbridge at Junction 36A (Broughton) to the centre-point of Wood Lane Bridge, west of Junction 35 (Dobshill).